Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# St David's College

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â St David's College

Mae St David’s College yn ysgol ddydd ac ysgol breswyl annibynnol sy’n addysgu bechgyn a merched rhwng 9 ac 19 oed.  Mae wedi’i leoli mewn tir helaeth, ychydig i’r de o Landudno yng Ngogledd Cymru.

Agorwyd yr ysgol ym 1965, fel elusen addysgol a sefydlwyd trwy weithred ymddiriedolaeth.  Cenhadaeth yr ysgol yw ‘datblygu’r unigolyn cyfan trwy addysg eang sydd wedi’i seilio ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordebau a gweithgareddau, a rhaglen bersonol gyflawnadwy ar gyfer pob disgybl.’  Mae bwrdd o lywodraethwyr yn gweinyddu’r ysgol.

Mae 259 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Mae gan ychydig dros un deg chwech y cant o’r disgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG).

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2017.  Penodwyd y tîm arweinyddiaeth newydd yn ddiweddarach yn ystod yr un hanner tymor.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf ym mis Hydref 2012.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn mynd ymlaen i ennill ystod eang o gymwysterau. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi a gweithgareddau allgyrsiol ac maent yn gwrtais a pharchus at bobl eraill, staff ac ymwelwyr.

Mae disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig a chynlluniau addysg, iechyd a gofal yn bodloni'r targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol. Mae llawer o ddisgyblion, yr oedd eu hunan-barch yn wael yn y gorffennol ac a oedd yn gweld dysgu'n heriol, yn datblygu hyder a medrau gwaith tîm ac arwain. Mae'r disgyblion hyn yn elwa'n benodol ar yr amrywiaeth helaeth o weithgareddau allgyrsiol cyffrous a ddarperir, fel mynydda, ogofa a'r celfyddydau perfformiadol.

Mae'r pennaeth newydd a thîm arweinyddiaeth yr ysgol yn creu amgylchedd cynnes a chefnogol, lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt. Maent yn gwneud yn siŵr fod staff yn gweithio'n dda fel tîm ac yn rhannu gwybodaeth bwysig am gynnydd academaidd parhaus a lles emosiynol disgyblion.

Mae gan athrawon yr holl gymwysterau ychwanegol i'w helpu i fodloni anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Maent yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i ddiweddaru eu medrau a'u gwybodaeth. Maent yn bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Mae gan ddisgyblion lais cryf yn St David's College. Er enghraifft, cynhelir cyfarfodydd wythnosol o'r cyngor ysgol gyda'r rheolwr arlwyo i drafod opsiynau bwyta'n iach, y fwydlen gynlluniedig am dair wythnos a chyfraniadau ar gyfryngau cymdeithasol.

Er nad yw hyn yn ofyniad y cwricwlwm ar gyfer ysgolion annibynnol, mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd a ddarperir i astudio'r Gymraeg yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae'r ysgol wedi gwella'r ffordd y mae'n defnyddio technoleg i gefnogi dysgu disgyblion. Yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno meddalwedd newydd ar gyfer athrawon ac ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae gan yr ysgol system a phroses effeithiol ar gyfer gosod ac arfarnu targedau ar gyfer disgyblion unigol ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn gwneud y defnydd gorau o ddata cynnydd y disgyblion hyn i gynllunio gwelliannau yn strategol ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi cael caniatâd gan Lywodraeth Cymru i addysgu 225 o ddisgyblion. Mae niferoedd presennol y disgyblion yn fwy na'r nifer hon.

Mae gan yr ysgol system effeithiol ar gyfer rheoli traffig ac mae’n defnyddio mesurau cadarn i gynnal diogelwch disgyblion a lleihau risgiau a achosir gan y safle gorlawn presennol.  Ceir cynlluniau datblygedig i wneud gwelliannau parhaol i’r safle.  Fodd bynnag, nid yw’r rhain wedi cael eu rhoi ar waith eto.

**Argymhellion**

**Dylai’r ysgol:**

A1 Wneud defnydd gwell o ddata cynnydd i gefnogi cynllunio gwelliant a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyflawni o’u gorau

A2 Gwneud yn siŵr fod disgyblion yn gallu gwneud defnydd effeithiol o feddalwedd i ddatblygu eu medrau

A3 Gwneud cais i Lywodraeth Cymru am wneud newid perthnasol i gofrestriad yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd gwaith disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm**

Mae tîm arweinyddiaeth newydd yr ysgol wedi cyflwyno mesurau priodol i helpu sicrhau mwy o gysondeb yn ansawdd gwaith disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys defnyddio'r rhaglen archwilio addysgu a dysgu yn effeithiol a chylch monitro strwythuredig. Mae uwch arweinwyr yn dilyn amserlen gynlluniedig o arsylwadau gwersi, yn craffu ar lyfrau bob hanner tymor ac yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion i drafod eu safbwyntiau ar fuddioldeb marcio athrawon.

Mae disgyblion yn derbyn adborth llafar defnyddiol ar ansawdd eu gwaith. Mae athrawon yn atgyfnerthu'r adborth hwn trwy roi'r polisi asesu a marcio ysgol gyfan ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Argymhelliad 2: Gwella monitro safonau a darpariaeth ar draws y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 5 a 6**

Mae'r ysgol wedi gwella ei threfniadau a'i darpariaeth ar gyfer y cwricwlwm ym Mlynyddoedd 5 a 6. Mae wedi penodi dau o athrawon profiadol cyfnod allweddol 2 ac wedi darparu ystafelloedd dosbarth dynodedig i gynnig mantais lleoliad parhaol i ddisgyblion. Mae'r athrawon wedi datblygu cwricwlwm addas ac amrywiaeth o adnoddau ysgogol, sy'n briodol i anghenion y cyfnod allweddol. Maent yn cydweithio'n dda ar gynlluniau gwaith a gwersi sy'n bodloni anghenion y disgyblion unigol yn y garfan.

Mae uwch arweinwyr yn monitro safonau trwy raglen archwilio addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu arsylwi addysgu, craffu ar lyfrau a chyfarfodydd gyda disgyblion.

Mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r ddarpariaeth newydd, ond mae'n rhy gynnar i fonitro'r effaith ar eu safonau.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod ansawdd pob cynllun gwaith yn dda ac yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau, trefniadau asesu a chyfleoedd i ddatblygu medrau**

Mae tîm arweinyddiaeth yr ysgol wedi cyflwyno systemau ac arweiniad defnyddiol i gefnogi sicrhau ansawdd cynlluniau gwaith. Defnyddiwyd diwrnodau hyfforddi yn effeithiol i ddarparu cynlluniau gwaith enghreifftiol a chyngor buddiol sy'n cynorthwyo cynllunio ar gyfer staff, er enghraifft ar gyfer datblygu medrau ac asesiadau pwrpasol. Erbyn hyn, mae llawer o gynlluniau gwaith yn gwneud defnydd buddiol o gysylltiadau trawsgwricwlaidd a gweithgareddau awyr agored.

Mae'r cynlluniau gwell yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i athrawon am yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir ymgymryd â nhw a ble a sut i gynnwys

cyfleoedd i ddatblygu medrau. Fodd bynnag, ni chaiff trefniadau ar gyfer asesu eu cynnwys bob amser.

**Argymhelliad 4: Darparu manylion mwy arfarnol mewn arsylwadau gwersi ac wrth graffu ar lyfrau er mwyn cael mwy o effaith ar godi safonau**

Mae’r ysgol wedi gwella’i system arsylwadau gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae aelodau o dîm arweinyddiaeth yr ysgol wedi pennu cyfrifoldebau adrannol ac mae amserlen ffurfiol ar waith ar gyfer arsylwadau a chraffu ar waith disgyblion. Mae gwybodaeth o’r gweithgareddau hyn yn ffurfio rhan o’r system gwerthuso athrawon.

Mae uwch arweinwyr wedi rhoi arweiniad gwell i athrawon ar sut i fod yn fwy arfarnol wrth roi adborth i ddisgyblion. Mae’r system newydd yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch arweinwyr a disgyblion i drafod effaith adborth athrawon ar eu gwaith. Caiff athrawon adborth gwerthfawr o’r cyfarfodydd hyn i gefnogi eu harfer sy’n datblygu.

Mae uwch arweinwyr yn cyfarfod â phenaethiaid adrannau yn rheolaidd i ddarparu adborth a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach.

O ganlyniad i’r gwelliannau hyn a wnaed gan yr ysgol, mae disgyblion yn derbyn sylwadau defnyddiol i’w helpu i ddeall beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu dysgu.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu 4.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Cynhyrchwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben yr arolygiad o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/01/2019